Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Mehefin 2006 June

Cylchlythyr/Newsletter

www.ygmg.com

Cwis Llyfrau / Book Quiz

Bu tîm cwis llyfrau blynyddoedd 3 a 4 yn Aberystwyth ddoe yn cynrychioli sir Caerdydd yn y rownd genedlaethol. Am y tro cyntaf eleni, gwobrwywyd y darn trafod a'r cyflwyniad dramatig ar wahân, yn ogystal â gwobrwyo prif dîm Cymru. Wedi hir ddisgwyl, daeth y canlyniadau i law yn hwyr yn y prynhawn. Gwobrwywyd tîm Melin Gruffydd yn gyntaf yn y rownd drafod/cwis a hefyd yn gyntaf am y cyflwyniad dramatig. Yn ychwanegol, gwobrwywyd y tîm yn gyntaf am y gystadleuaeth gyfan. Mae'r plant wedi gweithio'n ddiwyd yn ystod y flwyddyn yn darllen, yn ymarfer ac yn perfformio-LLONGYFARCHIADAU MAWR i bob un ohonynt!

The school's book quiz team (years 3 and 4) represented Cardiff yesterday in the national finals in Aberystwyth. This year, for the first time, the discussion/quiz was judged separately from the drama presentation. It was a very long day and the results were announced very late in the afternoon. Melin Gruffydd came first in the discussion round and also first in the drama presentation. In addition, Melin Gruffydd were judged to be the overall competition winners! The children have worked diligently throughout the year—CONGRATULATIONS to them all!

Tîm cwis llyfrau blwyddyn 3 a 4 2006—Mali Roberts, Gwenan Jenkins Jones, Gwenno Jones, Joseff Phillips, William Milburn, Hannah Ward, Aron Cynan, Beca Dafydd.

Y Meithrin

Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i sicrhau dosbarth Meithrin yn y bore a'r prynhawn o fis Medi. Mi fyddwn yn medru cynnig lle i 52 o blant yn y Meithrin-26 yn y bore a 26 yn y prynhawn. Mae hwn yn gam mawr yn natblygiad yr ysgol ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at groesawu'r plant newydd.

We are pleased to announce an expansion to our Meithrin provision. From September, we will be offering a place to 52 meithrin children—26 in the morning session and 26 in the afternoon. This is an exciting development for the school and we look forward to welcoming the new and additional children.